



Cyflawni drwy  
Brofiad Gwaith  
Achieve through  
Work Experience



# ASTUDIAETH ACHOS

## Myfyriwr Cemeg

### Cyflogwr Lletyol: Warwick Chemicals

#### Beth yw GO Wales?

Mae rhaglen Cyflawni drwy brofiad gwaith 'GO Wales', sydd wedi ei leoli ym Mhrifysgol Bangor, yn helpu myfyrwyr i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd a chynyddu eu cyfle i gael swydd addas i raddedigion ar ôl gadael y brifysgol.

#### Ynglŷn â'r myfyriwr

Roedd y myfyriwr yn ei ail flwyddyn yn astudio cwrs cemeg pedair blynedd. Mae'r cwrs yn cynnwys blwyddyn yn gweithio mewn lleoliad mewn diwydiant gyda'r myfyriwr yn ei drefnu. Roedd angen help ar y myfyriwr i gael profiad gwaith ond nid oedd ganddo unrhyw gysylltiadau yn y maes. Gwnaethom ni drefnu ei leoliad cyntaf gyda'r tîm ymchwil yn yr Ysgol Cemeg. Roedd ei ail leoliad gyda Warwick Chemicals sy'n arweinwyr byd-eang ym maes gweithgynhyrchu TAED ac wedi eu lleoli ym Mostyn.

#### Disgrifiwch pam y gwnaethoch benderfynu mynd at GO Wales i gael help i ddod o hyd i brofiad gwaith?

Clywais am GO Wales trwy ddiwrnod cyngor gyrfaoedd a gynhaliwyd gan y brifysgol. Penderfynais gysylltu â nhw oherwydd fy mod yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i leoliadau gwaith yn gysylltiedig â'm hastudiaeth mewn diwydiant, a chan nad oedd gen i unrhyw gysylltiadau nac yn adnabod rhywun i gysylltu â nhw, roeddwn i'n teimlo y byddai cael cymorth gan dîm ymroddedig o fudd i mi wrth dod o hyd i brofiad gwaith perthnasol.

#### A yw'ch lleoliadau wedi eich helpu i symud ymlaen ar y llwybr gyrfa yr hoffech ei ddilyn?

Roedd fy lleoliad yn Warwick Chemicals yn ddefnyddiol iawn yn fy helpu i benderfynu ar lwybr gyrfa yn y dyfodol. Roeddwn i wir wedi mwynhau'r agwedd ymchwil a datblygu o'r lleoliad ac mae'n fath o lwybr yr hoffwn barhau i'w ddilyn yn y dyfodol.

#### Sut fydddech chi'n disgrifio'r profiad o weithio yn y swydd hon?

Roedd gweithio yn y swydd hon am bythefnos yn rhoi llawer o foddhad. Cefais fy ngwneud yn rhan o'r tîm yn syth ac roeddwn yn cymryd rhan mewn "gwaith gwlyb" cemeg o'r diwrnod cyntaf. Roeddwn yn teimlo fy mod i'n gwrtais ac yn barod i helpu yn ystod y lleoliad am bythefnos a fy mod yn rhan ddefnyddiol o'r tîm.

#### Allwch chi ddisgrifio unrhyw sgiliau newydd wnaethoch chi eu dysgu nad oeddech chi'n disgwyl eu dysgu?

Nid wyf yn meddwl yn fy mod wedi datblygu unrhyw sgiliau newydd yn ystod y pythefnos ond yn sicr cefais gyfle i fireinio'r sgiliau roeddwn wedi eu dysgu'n flaenorol, yn enwedig fy sgiliau gwaith tîm a chyfathrebu. Roedd hwn yn gyfle da iawn i ddefnyddio sgiliau y byddai disgwyl i mi eu defnyddio o ddydd i ddydd mewn gwaith yn y dyfodol.

#### Ydych chi'n teimlo bod y cyfle gwaith hwn wedi eich helpu i oresgyn unrhyw rwystrau?

Roeddwn i'n teimlo mai'r prif rwystrau i mi gael gwaith oedd peidio â chael unrhyw gysylltiadau yn y diwydiant a hefyd ddim yn gwybod am beth fyddai darpar gyflogwyr yn chwilio. Drwy'r lleoliad GO Wales hwn, rwyf wedi gwneud rhai cysylltiadau penodol mewn diwydiant (rwyf wedi eu hychwanegu at linkedin) ac er nad oeddwn i wir wedi gweld y broses recriwtio, byddwn yn dweud fy mod wedi llwyddo i oresgyn fy rwystrau i gael gwaith.



Cyflawni drwy  
Brofiad Gwaith  
Achieve through  
Work Experience



### **Beth oedd yr uchafbwyntiau gweithio yn y lleoliad hwn?**

Cefais gymryd rhan mewn treial a gynhaliwyd ar raddfa 700 liter. Hwn oedd yr uchafbwynt i mi, gan nad wyf erioed wedi gwneud adwaith cemegol ar raddfa mor fawr o'r blaen. Roedd yn ddiddorol gweld cymaint o gemegion wedi'u hychwanegu mewn symiau mor fawr ac roedd y broses yn eithaf heriol gan nad oedd llawlyfr ar sut i weithredu adwaith o'r fath. Felly roedd angen sgiliau datrys problemau i geisio canfod sut i sefydlu'r gwahanol agweddau ar y broses adwaith.

### **Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i fyfyrwyr sy'n ystyried gwneud cais i GO Wales?**

Os ydych chi'n gymwys, mae hwn yn gynllun y dylech yn bendant gymryd rhan ynddo. Mae'r ymgynghorwyr yn barod i helpu ac yn fedrus iawn wrth gael profiad gwaith penodol i ddiwydiant. Heb y cynllun GO Wales byddwn yn dal i wynebu fy rhwystrau rhag cael gwaith.

### **Sut fath o gefnogaeth gawsoch chi yn ystod eich lleoliad?**

Cefais gefnogaeth wych yn ystod fy lleoliad. Roeddwn bob amser yn gallu cysylltu â fy ymgynghorydd Jo, roedd hi'n barod iawn i helpu a gweithiodd yn ddiwyd i gael hyd i leoliad i mi. Cefais gyfarfodydd cyn ac ar ôl fy lleoliad yn rhoi cyngor i mi a gwneud i mi feddwl am y sgiliau roeddwn i wedi'u hennill drwy fod yn y lleoliad. Rhoddodd Jo gyngor gwych hefyd ar osod amcanion perthnasol ac roedd yn drylwyr iawn pan oeddem yn gwneud gwaith papur.

Yn gyffredinol, mae'r lleoliad hwn a fy amser gyda thîm GO Wales wedi bod yn wych. Mwynheais y ddau leoliad a'r gefnogaeth a roddwyd gan y tîm. Maent yn sicr wedi fy helpu i symud ymlaen a gobeithiaf yn y dyfodol, y gallaf adrodd yn ôl iddynt i ddweud pa mor ddefnyddiol fu eu cymorth.

---

Dywedodd ymgynghorydd GO Wales "Mae wedi bod yn bleser cefnogi'r myfyriwr i ennill profiad mewn ymchwil a diwydiant. Mae wedi cael dealltwriaeth dda o weithio fel rhan o dîm ymchwil a datblygu. Rydym yn falch iawn o'i gynnydd ac yn teimlo'n hyderus y bydd yn parhau i wneud yn dda iawn ar ei daith yrfaol. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn y dyfodol."

Dywedodd y swyddog adnoddau dynol yn Warwick Chemicals, "Rhoddodd y lleoliad GO Wales hwn gyfle i aelod o'n staff reoli rhaglen ymchwil fach, ymarfer a datblygu sgiliau mewn cynllunio, iechyd a diogelwch wrth reoli a datblygu perthynas waith gyda'r myfyriwr. Roedd datblygu cysylltiadau gyda'r Adran Cemeg ym Mangor yn werthfawr iawn hefyd."

